| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 30 Tachwedd 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2023/24 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen diwygiedig ar gyfer 2023/24 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref 2023.

2. Roedd yr eitem ‘Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn’ wedi ei raglennu i’w drafod yn y cyfarfod yma. Mi fydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod nesaf ar 11 Rhagfyr 2023 yn cytuno ar raglen waith ac yn darparu Cynllun Cyflawni ar gyfer y Cynllun Llesiant.

3. Mae’r Bwrdd hefyd yn adolygu ei drefniadau a strwythurau gweithredu. Derbyniwyd cadarnhad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn y byddai’n amserol i gyflwyno adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Ebrill 2024. Gan fod dealltwriaeth/gofyn i graffu gwaith y Bwrdd dwywaith yn ystod blwyddyn Cyngor, byddai craffu adeg hynny yn galluogi’r Pwyllgor i ddiwallu’r gofyn.

4. Yn y gweithdy blynyddol, rhaglenwyd yr eitem ‘Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu’ ar gyfer cyfarfod mis Ebrill 2024. Yng nghyfarfod cyswllt Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor gyda’r Aelod Cabinet Amgylchedd a’r Pennaeth Adran, un o’r materion a drafodwyd oedd amseriad craffu’r eitem yma.

5. Er mwyn rhoi cyfle i ffrydiau gwaith yn y maes hwn i ddatblygu ymhellach, credir y byddai’n ddoeth i ystyried blaenoriaethu’r mater i’w graffu yng nghyfarfod cyntaf 2024/25, wrth lunio rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn y Gweithdy Blynyddol. Byddai ail-raglennu’r eitem yn galluogi’r Pwyllgor i ychwanegu gwerth drwy graffu yn amserol.

6. Gweler ynghlwm fel atodiad i’r adroddiad, rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.

7. **Gofynnir i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.**

ATODIAD

**BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24**

| **13/07/2023** |
|---|
| • Adroddiad Blynyddol 2022/23 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus |
| **05/10/2023** |
| • Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Y Cytundeb Cyflawni<br>• Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan<br>• Toiledau Cyhoeddus |
| **30/11/2023** |
| • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur<br>• Strategaeth Llifogydd Lleol |
| **22/02/2024** |
| • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn<br>• Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus<br>• Llawlyfr Cynnal Priffyrdd<br>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd |
| **18/04/2024** |
| • Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd<br>• Gwasanaeth Edrychiad Stryd |

<u>Eitem i'w raglennu yn 2024/25:</u>

Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu